Prosiect:	**Fferm Wynt Tirgwynt**
Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol (TIRGm113)**
Dyddiad/Amser:	**31 Awst 2016; 19:00**
Lleoliad:	**Neuadd y Dref, y Trallwng, SY21 7JQ**

Yn bresennol	Yn cynrychioli	Rôl
Mike Davis (MJD) - Cadeirydd	Wind Prospect Ltd (WPL)	Rheolwr Prosiect a Pheiriannydd y Perchennog
Sophy Fearnley-Whittingstall (SFW)	Awel Newydd Cyf	Rheolwr Cysylltiadau Cymunedol
Yr Arolygydd Stuart Eckley (SE)	Heddlu Dyfed Powys	
Cyng. Gwyndaf Thomas (GT)	Cyngor Cymuned Carno	
Cyng. Michael Connell (MC)	Cyngor Cymuned Carreghofa	
Cyng. Primrose Jones (PJ)	Cyngor Cymuned Llandrinio ac Ardd-lîn	
Cyng. Phil Davies (PD)	Cyngor Cymuned Dwyriw	
Cyng. Frances Buckingham (FB)	Cyngor Cymuned Llandysilio	
Robert Robinson (RR)	Cyngor Tref y Trallwng	
Cyng. Steve Kaye (SK)	Cyngor Tref y Trallwng	
Cyng. Amy Bowen (AB)	Cyngor Tref y Trallwng	
Cyng. Graham Breeze (GB)	Cyngor Tref y Trallwng	

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emily Cheung (EC)(Awel Newydd), y Cyng. Alun Phillips (Carno) a Carol Davies (clerc i Llandrinio ac Ardd-lîn, Llandysilio). Nid oedd unrhyw gyngor cymuned arall wedi ymateb i'r gwahoddiad nac i'r nodyn atgoffa.
2. Cyflwyniadau
    2.1 Cyflwynodd holl aelodau'r gymuned eu hunain.
3. Iechyd a Diogelwch
    3.1 Rhoddodd RR wybodaeth diogelwch am yr adeilad.

4. Cynnydd yr Adeiladu - MD
    4.1 Mae 6 thyrbin yn awr wedi'u cwblhau ar ochr ddeheuol y safle; disgwylir iddynt gael eu comisiynu yng nghanol mis Medi.
    4.2 Mae'r prosiect yn parhau i gadw at yr amserlen ar gyfer gweithredu masnachol ym mis Rhagfyr.
5. Cynnydd yr Is-orsaf – MD
    5.1 Mae'r gwaith sifil wrthi'n cael ei orffen gyda chysylltiad terfynol yr offer y tu mewn i'r is-orsaf yn parhau.
    5.2 Mae Scottish Power ar ei hôl hi gyda'u rhaglen gomisiynu (oherwydd y galw cryf ar hyn o bryd am beirianwyr foltedd uchel) a hynny'n achosi oedi i'r egnioli. Bydd egnioli'r ceblau yn awr yn digwydd ar 11eg Hydref (pythefnos yn hwyr).
    5.3 Mae ad-drefnu gweithgareddau'r tyrbinau gwynt yn golygu nad yw'r oedi hwn yn effeithio ar y rhaglen gyfan.
6. Gwybodaeth ddiweddaraf am gludo'r tyrbinau – MD a SFW
    6.1 Ar ôl dechrau araf, mae'r gwaith cludo wedi cyflymu a thua 2/3 yn gyflawn – dylid wedi'u cwblhau erbyn canol mis Medi.
    6.2 Mae'r amseru yn anodd ei ragweld, ond mae tîm y prosiect wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd drwy'r wefan, e-bost a negeseuon testun. Ymddiheurodd MD ei bod wedi bod yn anodd cael gwybodaeth gan gludwyr oherwydd nad ydynt yn gallu olrhain lorïau cludo yn fyw ar-lein. Dywedodd FB bod y cyhoedd fel petaent yn dygymod â hyn nawr ac mae llif fyw Twitter yr heddlu yn ddefnyddiol iawn ac mae'r radio lleol hefyd yn rhoi diweddariadau. Roedd cytundeb cyffredinol bod y negeseuon testun hefyd yn ddefnyddiol.
    6.3 Dywedodd RR y dylid gwrando ar adborth lleol. Esboniodd SFW a MD nad yw'r materion amseru o reidrwydd o ganlyniad i draffig traffordd, ac ni chafwyd fawr ddim digwyddiadau, ond bod y logisteg yn hytrach yn ymwneud ag argaeledd tryciau, gyrwyr a'r heddlu i hebrwng a hynny'n newid o ddydd i ddydd.
    6.4 Mae'n bosibl y bydd yna orgyffwrdd nawr â'r teithiau cludo i Garreg Lwyd o tua wythnos (wythnos yn dechrau 12 Medi). Mae RES ac ANC wedi cytuno i gludo ar ddiwrnodau gwahanol i leihau ar y tarfu.
    6.5 Holodd PJ am yr effaith ar ysgolion. Dywedodd SFW fod ysgolion lleol wedi cael gwybod am y teithiau cludo yn ystod pythefnos cyntaf y flwyddyn ysgol newydd er mwyn i rieni a staff wybod ble i gael gwybodaeth ac addasu amseroedd teithio os oes angen. Bydd ysgolion hefyd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth 'Enwch y Tyrbin', sydd wedi bod yn boblogaidd iawn mewn ffermydd gwynt eraill.
    6.6 Dywedodd RR fod Rheilffordd Ysgafn y Trallwng a Llanfair yn cynnal ei benwythnos Gala 2-3 Medi ac y dylid osgoi'r daith gludo a gynlluniwyd ar gyfer dydd Sadwrn 3 Medi. Atebodd SFW nad yw'r teithiau cludo wedi achosi llawer o broblemau hyd yn hyn yn y Trallwng, byddai aelod o'r tîm yn siarad â threfnwyr y Gala ac yn cysylltu â'r heddlu. **Gweithredu: EC i gysylltu â'r Rheilffordd.**

6.7 Dywedodd PJ iddi gyfrif 99 o gerbydau yn teithio y tu ôl i gonfoi 2 wythnos yn ôl. Dywedodd MD nad yw'n anarferol gweld llinellau hir o draffig yn sownd y tu ôl i gerbydau sy'n symud yn araf megis peiriannau fferm. Dywedodd FB nad yw'r oedi yn ddim hirach na 10 munud ac ni adroddwyd am unrhyw broblemau i'r cyngor. Dywedodd MC fod traffig weithiau yn cronni ar ffyrdd ochr. Nododd SFW mai dim ond nifer fach o gŵynion yr oedd tîm y prosiect wedi eu derbyn, a'r un nifer o bobl yn dweud bod y gyrwyr yn gwneud gwaith da ac sydd am wybod pryd y gallent weld confoi. Cytunodd MC fod llawer o bobl yn mwynhau gwylio'r confois. Nododd RR na fu unrhyw anawsterau wrth fynd trwy'r Trallwng.

6.8 Mynegodd MC, PJ, FB a GB bryder ynghylch cyflymder hebryngwyr yr heddlu ar feiciau modur a cherbyd yr heddlu ar flaen y confoi. Holodd hefyd pam nad oedd unrhyw feiciau modur gan yr heddlu wrth gwt y confoi. Dywedodd SE y byddai'n bwydo pryderon hyn yn ôl i'r Arolygydd Gary Jones. Dywedodd RR fod beiciau modur yr heddlu wedi ymateb i adborth a'u bod nawr yn arafu wrth deithio trwy'r Trallwng. Dywedodd FB bod gyrwyr Collett yn dda iawn ac yn arafu pan fo'n briodol.

7. Cynigion Cronfa Budd Cymunedol - SFW

7.1 Amlinellodd SFW y cynigion i'r gronfa gymunedol: £2000 fesul MW y flwyddyn, mynegrifol, am 25 mlynedd o oes y fferm wynt, sy'n dod i gyfanswm o £49,200 y flwyddyn. Mae 75% i'w rannu rhwng y cymunedau lle mae'r ffermydd gwynt sef Carno a Dwyriw, a 25% i gymunedau y llwybr cludo o'r safle i Pant:

- £24,600 i gymuned Carno (8 tyrbin)
- £12,300 i gymuned Dwyriw (4 tyrbin)
- £12,300 i gymunedau ar y llwybr cludo am 5 mlynedd, ac yna agor i gymuned ehangach Sir Drefaldwyn

7.2 Oherwydd fod Carno a Dwyriw ill dau eisoes yn rheoli cronfeydd budd cymunedol o'r ffermydd gwynt, cynigir y caiff cronfeydd Tirgwynt eu hychwanegu at eu cronfeydd cyfredol.

7.3 Ar gyfer cronfa'r llwybr cludo (enw i'w gadarnhau) bydd Awel Newydd yn sefydlu Ymddiriedolaeth sydd â strwythur tebyg i Ymddiriedolaethau Cronfa Ffermydd Gwynt Carno a Dwyriw. Byddai penderfyniadau grant yn cael eu gwneud gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr o Gynghorau Cymuned sy'n fuddiolwyr, ac eithrio'r Trallwng a fydd yn cael eu cynrychioli gan aelod(au) o'r cyhoedd, yn ogystal â chynrychiolydd y fferm wynt (tirfeddiannwr). Bydd cronfa'r llwybr cludo er budd trigolion y cymunedau canlynol: Castell Caereinion; Carreghofa; Llanymynech a Pant; Llandrinio ac Ardd-lîn; Llandysilio; Llanfair Caereinion; y Trallwng am y pum mlynedd cyntaf, ac i drigolion Sir Drefaldwyn wedi hynny. Bydd gweinyddwr cronfa yn cael ei benodi yn lleol, a thalu amdano o'r gronfa (amcangyfrifir tua 4 diwrnod o waith y flwyddyn) – dyma'r math o waith sy'n debygol o apelio at glerc Cyngor Cymuned (megis

cronfeydd Carno a Dwyriw). Bydd y cyllid am y pum mlynedd cyntaf yn cael ei dalu fel cyfandaliad gostyngol ymlaen llaw, tua £55,000 yn amodol ar gadarnhad gan gyfarwyddwyr Awel Newydd.

7.4 Mae nifer o grwpiau lleol eisoes wedi mynegi diddordeb mewn ymgeisio am grantiau o gronfa'r llwybr cludo: Neuadd Goffa Pant - ynni adnewyddadwy; Cludiant Cymunedol y Trallwng; Canolfan Gwirfoddolwyr Sir Drefaldwyn; Canolfan Allgymorth y Trallwng; Cwmni Theatr Ieuenctid Maldwyn; Banc Bwyd y Trallwng; Brownies 1af y Trallwng; Geidiau 1af y Trallwng; Diffoddwyr Tân Ifanc y Trallwng; Clwb Pêl-droed Cegidfa; Canolfan Teulu Drws Agored; Clwb Pêl-droed Ieuenctid y Trallwng; Cadetiaid Awyr y Trallwng; Ysgol Gynradd Ardd-lîn.

7.5 Holodd RR a ddylid cynnwys Cegidfa hefyd yng nghronfa'r llwybr cludo. Atebodd SFW y byddai'r gronfa yn agored iddynt ar ôl 5 mlynedd beth bynnag, ond byddai'n gwirio ffiniau'r cymunedau eto. **Gweithredu: SFW i wirio a yw llwybr cludo'r tyrbinau yn mynd yn uniongyrchol drwy Cegidfa**. Dywedodd GT fod angen adrodd am y cyllid yn flynyddol wrth y Cynulliad ar alldaliadau grantiau. Dywedodd FB y byddai angen i bob cyngor cymuned unigol drafod y cynnig, ond gan eu bod yn seiliedig ar ddau gynllun sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth leol sy'n bodoli eisoes ni ddylai fod yna lawer o ddadlau. **Gweithredu: SFW i gysylltu â chynghorau cymuned unigol ar y llwybr cludo i roi mwy o fanylion am y cynigion.**

8. Unrhyw Faterion Eraill

8.1 Dywedodd MC fod angen newid yr arwyddion ffyrdd rhwng Croesoswallt a'r Trallwng i ddangos y bydd llwythi cludo tyrbinau Fferm Wynt Garreg Lwyd yn parhau hyd at fis Rhagfyr. **Gweithredu: SFW i fwydo hyn yn ôl i RES.**

8.2 Gofynnodd MC pam nad oes gan RES grŵp cyswllt cymunedol ar gyfer Garreg Lwyd. Esboniodd MD bod gan y ddau ddatblygwr ddulliau ychydig yn wahanol o wneud pethau, ac roedd y GCC yn rhan o'r A106 ar gyfer Tirgwynt, tra nad oedd i Garreg Lwyd, ond bod RES ac Awel Newydd yn cydweithio'n agos ac y byddai trosglwyddo llyfn pan fydd RES yn dechrau ar y llwythi tyrbinau er mwyn cynnal arferion gorau.

8.3 Holodd RR pryd y byddai ynysoedd traffig y Trallwng yn mynd yn ôl. Atebodd MD y byddai hyn ar ôl i'r teithiau cludo i gyd orffen, ganol mis Medi

8.4 Gofynnodd FB a ellid trosglwyddo'r offeryn ceibr (*chevron*) wrth Gylchfan Four Crosses i RES. Dywedodd MD y byddai modd gwneud hynny.

9. Dyddiad, Amser a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

9.1 Gofynnodd PJ a ellid cael ymweliad safle ar gyfer y grŵp cyswllt cymunedol a chytunwyd y byddai hyn yn digwydd cyn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal yn ystod hanner cyntaf mis Tachwedd 2016 (gan osgoi dyddiadau sy'n agos at Sul y Cofio) ar gyfer yr holl aelodau.

Ymweliad safle am 2pm i'w ddilyn gan gyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Carno. **Gweithredu: SFW i gydlynu â GT i gadarnhau dyddiad ac amser addas yng Ngharno**